

Swyddog Cymwysterau: Llwybrau Mynediad a Chymhwyster y Project Estynedig

Cyflog: £45,264 - £49,143 y flwyddyn (Gradd 10)

Contract: Llawn amser (36.5 awr yr wythnos), Parhaol

Rydym yn falch o wahodd ceisiadau am swydd lawn amser fel Swyddog Cymwysterau i ymuno â'n tîm. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn arwain y gwaith o ganfod cyfleoedd ac ymateb iddynt gan arwain at dwf y cymwysterau.

Y rôl

Bydd y Swyddog Cymwysterau: Llwybrau Mynediad a Chymhwyster y Project Estynedig yn gyfrifol am reolaeth weithredol y gwaith o gyflwyno a datblygu cymwysterau a deunyddiau; darpariaeth Dysgu Proffesiynol a chynnig cyngor ac arweiniad i amrediad eang o gynulleidfaoedd proffesiynol. Mae'r rôl yn argoeli'n ddiddorol ac amrywiol i'r ymgeisydd cywir.

Amdanoch chi

Bydd ymgeiswyr yn Aseswr neu'n Wiriwr profiadol; bydd ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o gyflwyno cymwysterau sy'n seiliedig ar sgiliau/cymhwysedd/projectau a dulliau asesu cysylltiedig, a phrofiad o wneud hynny. Byddant yn mwynhau rhyngweithio ag eraill a bydd ganddynt sgiliau cyfathrebu rhagorol i gefnogi hyn. Er y byddai medru'r Gymraeg yn fanteisiol iawn, nid yw'n hanfodol ar gyfer y swydd hon.

Manteision

Os ydych chi'n athro neu'n ddarlithydd profiadol sy'n frwdfrydig dros addysgu ac asesu, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych. Mae CBAC yn falch o gynnig amrywiaeth o fuddion, gan gynnwys 25 diwrnod o wyliau blynyddol (pro-rata) ynghyd ag 16 o ddyddiau statudol ac ychwanegol, cyrsiau Cymraeg rhad ac am ddim, cynllun pensiwn hael a pholisïau sy'n ystyriol o deuluoedd.

Mae'r swydd hon yn un hybrid, sy'n galluogi'r ymgeisydd llwyddiannus i rannu ei amser rhwng gweithio yn swyddfeydd CBAC a gweithio gartref, gan ddibynnu ar ddewis personol ac anghenion busnes. Oherwydd hynny, gwahoddir ceisiadau gan unigolion o ledled y DU ond noder y bydd gofyn gweithio'n rheolaidd yn ein swyddfeydd yng Nghaerdydd ar gyfer y rôl hon.

Os hoffech wybod mwy am y swydd neu am weithio i CBAC, cysylltwch â ad@wjec.co.uk fyddai'n fwy na pharod i siarad â chi.

Ewch i'n [gwefan](#) i lwytho copi o'r disgrifiad swydd a ffurflen gais i lawr.

Dyddiad cau: 23:59; Dydd Sul 15 Mehefin 2025

Disgrifiad Swydd

Teitl y Swydd:	Swyddog Cymwysterau: Llwybrau Mynediad a Chymhwyster y Project Estynedig
Adran:	Cyfarwyddiaeth Cymwysterau a Gwasanaeth Asesu
Isadran:	Gwasanaeth Cymwysterau Galwedigaethol a Thechnegol (CGTh) a Sgiliau – Cymwysterau Sgiliau a Llwybrau
Yn atebol i:	Pennaeth Sgiliau a Llwybrau
Gradd:	10
Lleoliad:	Swyddfeydd CBAC, Rhodfa'r Gorllewin

Prif ddiben y Swydd:

Bydd gan y Swyddog Cymwysterau: Llwybrau Mynediad a Chymhwyster y Project Estynedig gyfrifoldeb dros bortffolio o gymwysterau sy'n nodi ac yn ymateb i gyfleoedd sy'n arwain at dwf y cymwysterau.

Bydd y Swyddog Cymwysterau: Llwybrau Mynediad a Chymhwyster y Project Estynedig yn gyfrifol am reolaeth weithredol:

- cyflwyno, asesu a dyfarnu, a chynnal y cymwysterau
- datblygu deunyddiau asesu di-arholiad a chanllawiau asesu cysylltiedig
- darpariaeth Dysgu Proffesiynol
- cyngor ac arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â chymwysterau i amrediad o gynulleidfaoedd proffesiynol.

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

Cyfathrebu, Cysylltu a Rhwydweithio

- Darparu cyngor ac arweiniad manwl yn rhagweithiol i amrediad o randdeiliaid mewnol ac allanol ynghylch y cymwysterau, drwy ymateb i ymholiadau sy'n cyrraedd a chynhyrchu cylchlythyrau ysgrifenedig neu ddeunyddiau cefnogi tebyg.
- Cynllunio, trefnu a darparu amrywiaeth o ddigwyddiadau Dysgu Proffesiynol i athrawon ac eraill â diddordeb.
- Cydweithio ag adrannau mewnol, fel y Tîm Marchnata i ddatblygu a gweithredu strategaeth farchnata ar gyfer y cymwysterau, gan fod yn gyfrifol am ei llwyddiant a'i thwf.
- Hyrwyddo'r cymwysterau drwy'r sianelau priodol, gan gynnwys ysgrifennu a sicrhau ansawdd y tudalennau perthnasol ar wefan CBAC.
- Cynhyrchu deunyddiau canllaw a chyhoeddiadau allanol eraill i gefnogi prosesau sy'n gysylltiedig â chymwysterau.
- Cyngori eraill ar yr adnoddau addysgol sydd eu hangen i gefnogi addysgu a dysgu'r cymwysterau, a chydweithio ag eraill i ddatblygu adnoddau digidol cysylltiedig.

Recriwtio a Rheoli Eraill

- Sicrhau bod timau addas o swyddogion sicrhau ansawdd allanol a chymedrolwyr ar waith ac yn derbyn yr hyfforddiant, cyngor ac arweiniad angenrheidiol i gyflawni eu rolau'n effeithiol.
- Cyfweld ac argymhell penodi uwch benodedigion ar gyfer swyddi o'r fath.
- Monitro a gwerthuso perfformiad y Penodedigion a dod o hyd i weithwyr newydd pan fo angen.

Prosesau Rheoli Asesu, Sicrhau Ansawdd a Dyfarnu

- Cysylltu â thimau mewnol gan gynnwys y Tîm TG i gyfrannu at y gwaith parhaus o ddatblygu a gweithredu systemau TG (gan gynnwys Cyswllt CBAC) er mwyn cefnogi prosesau asesu a sicrhau ansawdd.
- Monitro cywirdeb asesu/cymedroli mewnol ar y cyd ag Uwch Benodedigion, a lle bo angen, cymryd camau priodol
- Trefnu, gwasanaethu, cynghori a chyfeirio gweithdrefnau cymedroli, safoni prosesau sicrhau ansawdd allanol a chynadleddau dyfarnu
- Adolygu a sicrhau ansawdd yr adroddiadau sicrhau ansawdd allanol/cymedroli i ganolfannau
- Sicrhau bod y wybodaeth angenrheidiol gan yr isadran weinyddol berthnasol i weinyddu'r broses sicrhau ansawdd allanol/cymedroli.
- Adrodd yn ôl ar y prosesau dyfarnu a chyflwyno argymhellion i'r Swyddog Cyfrifol ar ôl trafod â Chadeirydd y Cymhwyster.

Llywio datblygiad parhaus y cymwysterau

- Rhoi arweiniad rhagweithiol ac arloesol ar gyfer datblygiadau'n ymwneud â'r cymwysterau.
- Coladu adborth gan ganolfannau ar y cymwysterau a gwneud argymhellion ar newidiadau i'r fanyleb mewn ymateb i faterion a nodwyd.
- Bod yn gyfrifol am agweddau allweddol ar y Broses Ddiwygio Manylebau, diweddarau dogfennau manylebau a deunyddiau cysylltiedig yn cynnwys y Canllawiau i Athrawon.
- Cyfrannu (lle bo'n berthnasol) at ddatblygu meini prawf/amodau cymeradwyo cymwysterau sy'n gysylltiedig â'r cymwysterau.

Cyfrifoldeb cyllidebol

- Rheoli cyllidebau perthnasol, a chyfrannu at weithgareddau cynllunio a monitro ariannol perthnasol.

Cyfrifoldebau Eraill

- Deall a chydymffurfio â holl bolisiau a gweithdrefnau CBAC a nodir yn y Llawlyfr Staff; yn benodol, sicrhau eich bod yn deall eich rôl a'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â Diogelu, Diogelwch Gwybodaeth, GDPR, Cyfrinachedd, yr iaith Gymraeg ac Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd.
- Cymryd rhan weithredol yn y gwaith o gefnogi egwyddorion ac arfer cydraddoldeb cyfle fel y'i nodir ym Mholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth CBAC, gan ymgorffori Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ym mhob project, polisi ac arfer.
- Bod yn aelod rhagweithiol o'r tîm, gan gyfrannu'n gadarnhaol at gyfarfodydd a phrojectau i gefnogi nodau ac amcanion CBAC.
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu personol a phroffesiynol sy'n berthnasol i'r rôl.
- Ymgymryd â dyletswyddau eraill yn ôl y galw sy'n gymesur â gradd y swydd.

Manyleb y Person

Teitl y Swydd:	Swyddog Cymwysterau: Llwybrau Mynediad a Chymhwyster y Project Estynedig
Adran:	Gwasanaeth Cymwysterau Galwedigaethol a Thechnegol (CGTh) a Sgiliau – Cymwysterau Sgiliau a Llwybrau

Meini prawf hynod ddymunol yw'r sgiliau a'r profiad gorau posibl a fydd gan yr ymgeisydd yn ddelfrydol. Meini prawf dymunol yw'r rhai a fyddai'n ychwanegu gwerth at y swydd os ydynt ar gael, gan gynnwys hefyd potensial am dwf a datblygiad yn y rôl.

Sgiliau a Galluoedd

Hynod Ddymunol

- Sgiliau cyfathrebu da yn ysgrifenedig ac ar lafar, gyda'r gallu i esbonio materion cymhleth i amrywiaeth o gynulleidfaoedd, gan gynnwys drwy gyflwyniad.
- Llythrennedd cyfrifiadurol da gyda'r gallu i ddefnyddio Microsoft Office yn hyderus (yn benodol Word, Excel, PowerPoint, SharePoint a Teams)
- Unigolyn sy'n gallu cymell ei hun i fynd ati'n annibynnol i gynllunio a threfnu ei lwyth gwaith ei hun a llwyth gwaith y tîm i gwrdd â therfynau amser llym.
- Unigolyn sy'n gallu datrys problemau yn greadigol, sy'n gyffyrddus yn ei ddefnydd o fenter a hyblygrwydd i ddatrys problemau newydd neu gymhleth yn y gwaith.
- Y gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg

Dymunol

- Sgiliau rhwydweithio ardderchog, yn ddelfrydol gyda phrofiad blaenorol o gynrychioli corff ar lefel broffesiynol.
- Lefel dda o sgiliau rhifedd neu ystadegau, gyda'r gallu i gymhwyso hyn i fonitro cyllideb a/neu ddadansoddi a dehongli adroddiadau i lywio penderfyniadau busnes.

Gwybodaeth

Hynod ddymunol

- Gwybodaeth am gymwysterau sy'n seiliedig ar sgiliau/cymhwysedd a dulliau asesu cysylltiedig.

Profiad

Hynod ddymunol

- Profiad o gyflwyno a/neu asesu cymwysterau sy'n seiliedig ar sgiliau.
- Profiad sicrhau ansawdd mewnol neu allanol (dilysu)/cymedroli

Dymunol

- Cynhyrchu canllawiau neu adnoddau

Hyfforddiant / Cymwysterau

Hynod ddymunol

- Aseswr neu wiriwr cymhwyster

Dymunol

- Cymhwyster addysgu

